LLWYDDO'N LLEOL

YN RHOI HWB I GYFLEOEDD GWAITH POBL IFANC

LLWYDDO'N LLEOL 2050

ENW: Kieran Thomas

BRO: Llanddarog, Sir Gâr

CIGYDDION O FRI YN DATHLU LLWYDDIANT PRENTIS

I Kieran Thomas o Landdarog, roedd gweithio mewn tafarn leol fel cogydd yn brofiad gwerthfawr, ond fel dyn ifanc â diddordebau chwaraeon brwd, nid oedd yr oriau hir gyda'r nos yn addas iddo.

"Roedd gen i ddiddordeb mawr mewn cig, felly pan welais gyfle am brentisiaeth bwtsieraeth, fe es amdani," meddai.

Cafodd Kieran gyfle i ddilyn ei brentisiaeth gyda chwmni cigyddion o fri, Albert Rees Cyf yng Nghaerfyrddin, sy'n enwog am gynhyrchu ham Caerfyrddin.

"Roeddwn i wastad wedi hoffi'r syniad o ddysgu sgiliau traddodiadol, ac roedd y cyfle hwn yn berffaith i mi."

SUT MAE LLWYDDO'N LLEOL WEDI HELPU?

Gyda chefnogaeth yr elfen Gyrfaol dechreuodd Kieran ar ei brentisiaeth, gan fagu profiad gyda chwmni sydd wedi bod yn masnachu ers chwe chenhedlaeth.

"Mae Matthew a'r tîm wedi bod yn wych – rwyf wedi dysgu cymaint mewn cyfnod byr. Roeddwn i eisiau aros yn fy ardal, ac mae prosiect Llwyddo'n Lleol wedi gwneud hynny'n bosibl i mi. Dw i eisiau parhau i ddysgu ac adeiladu gyrfa yn y maes. Mae'n wych cael gweithio gyda chwmni sydd â hanes mor hir."

DOD I'R BRIG FEL BWTSHER

"Yn gynharach eleni, enillais fedal aur yng nghystadleuaeth prentis cigydd y flwyddyn yng Nghymru. Roedd y gystadleuaeth yn heriol – roedd angen torri oen cyfan a chreu arddangosfa o'r cig mewn ffenest. Roeddwn i mor hapus i ennill."

MWY NA GWAITH LLEOL YN UNIG

Mae Kieran yn gwerthfawrogi'r ffaith bod y brentisiaeth wedi ei alluogi i aros yn lleol.

"Rwy'n dal i allu chwarae rygbi i Cefneithin a bowls ar lefel gystadleuol. Mae llawer o'n cwsmeriaid yn bobol rwy'n chwarae gyda nhw – mae hynny'n gwneud y swydd hyd yn oed yn fwy pleserus."

ARFOR
CREU GWAITH - CEFNOGI'R IAITH

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government